FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Ynys Môn

3 - 5 Mehefin 2003

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol, yn bennaf, yw gorfodi cyfraith bwyd sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo hylendid bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Dylid cydnabod y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau unedol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ôl Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd, 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Hefyd, mae'r adroddiad yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr Awdurdod, i ymdrin â chanfyddiadau'r archwiliad.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad A.

CYNNWYS

		Tud.
1	**Cyflwyniad**	
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**5**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**7**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**8**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**10**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**11**
6	Cyfleusterau ac Offer	**13**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**14**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**18**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**19**
10	Cyngor i Fusnesau	**20**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**21**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**22**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**24**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**25**
15	Gorfodaeth	**26**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**27**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**29**
18	Cydweithio â Sefydliadau Eraill	**30**
19	Monitro Mewnol	**31**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**32**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**33**
	Atodiad	
A.	Geirfa	
	Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn	

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun i ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Sir Ynys Môn o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.2 1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a chyfraith bwydydd anifeiliaid Cyngor Sir Ynys Môn. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfa'r Cyngor yn Llangefni, Ynys Môn, ar 3 – 5 Mehefin 2003.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth y Cyngor yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Lleolir yr Awdurdod yng ngogledd-orllewin Cymru ar Ynys Môn, ac mae'n cynnwys ardal o 71,511 hectar. Mae ganddo 201 cilomedr o arfordir, y mae natur wledig i'r rhan fwyaf ohono. Ynghyd ag amaethyddiaeth, twristiaeth yw prif ddiwydiant yr ynys. 65,400 yw poblogaeth Ynys Môn, yr amcangyfrifir ei bod yn dyblu yn ystod tymor y gwyliau oherwydd ymwelwyr dydd ac arosiadau tymor hwy. Mae porthladd Caergybi yng ngogledd yr Ynys yn cynnig cysylltiad pwysig ag Iwerddon, ac mae'r glannau o amgylch yr ynys yn gartref i nifer o welyau cregynbysgod masnachol.

1.7 Gorfodwyd y gyfraith fwyd gan swyddogion yn Adain Iechyd yr Amgylchedd ac Adain Safonau Masnach yr Adran Gwasanaethau Amgylcheddol, a leolir yn y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol.

1.8 Roedd Swyddfeydd y Cyngor ar agor rhwng 08:45 – 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid oedd gan yr Awdurdod wasanaeth ffurfiol y tu allan i oriau gwaith.

1.9 Yn ogystal â gorfodi cyfraith fwyd, roedd tîm Iechyd yr Amgylchedd a'r tîm Safonau Masnach hefyd yn gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys iechyd a diogelwch galwedigaethol, llygredd, cartrefi sector preifat, iechyd porthladdoedd, diogelwch cynnyrch, mesureg, masnach deg, trwyddedu, marchnadoedd a ffeiriau a gwaith gorfodi iechyd anifeiliaid.

1.10 Caiff lefel staffio'r Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol ar gyfer gorfodi cyfraith fwyd, a fanylir yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod 2003/2004, ei ddangos isod:

Adnodd sydd ar gael	**FTE***
Swyddogion Gorfodi Hylendid Bwyd	3.0
Swyddogion Gorfodi Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	2.5
CYFANSWM	**5.5**

*Cyfwerth ag Amser Llawn

1.11 Roedd y gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd yn cynnwys 2 aelod o staff FTE a gynhaliai arolygiadau a swyddog samplo. Roedd Prif Swyddog yr adran diogelwch bwyd yn gyfrifol am reoli gorfodi iechyd a diogelwch a chyflawni swyddogaethau iechyd porthladdoedd, yn ogystal â gwaith gorfodi bwyd. Ni fanylwyd yr amser a ddyrennir i waith gorfodi hylendid bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd ac, felly, nid yw wedi'i gynnwys

yn y tabl uchod. Nododd yr Awdurdod ddiffyg yn ei adnoddau o ran 1 swyddog gorfodi hylendid bwyd, ac adeg yr archwiliad roedd wedi hysbysebu'r swydd ond heb benodi unrhyw un.

1.12 Amcangyfrifwyd mai costau ariannol y gwasanaeth hylendid bwyd ar gyfer 2003/2004 oedd £118,570. Roedd costau'r gwasanaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid wedi'u cynnwys yn y cyfanswm o £381,700 a roddir i'r gwasanaeth safonau masnach. Nid oedd yr Awdurdod yn gallu cynnig dadansoddiad manwl o feysydd unigol y gwasanaeth oddi mewn i'r cyfanswm hwn.

1.13 Nodai ffurflenni monitro'r Awdurdod, a gyflwynwyd i'r Asiantaeth ar gyfer pedwar chwarter blwyddyn ariannol 2001/2002, fod yr Adran Gwasanaethau Amgylcheddol yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth fwyd mewn 1210 o safleoedd. Effeithiodd yr achos o glwy'r traed a'r genau, a'i gwnaeth yn ofynnol ail-neilltuo adnoddau, yn wael ar y gweithgarwch arolygu a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod hwn. Yn bennaf, yn y sectorau arlwyo ac adwerthu oedd y busnesau bwyd a arolygwyd. Roedd y ffurflenni'n dangos bod yr Awdurdod wedi cynnal:

Gweithgaredd gorfodi	**Nifer**
Arolygiadau hylendid bwyd	446
Ymweliadau hylendid bwyd eraill	442
Arolygiadau safonau bwyd	41
Ymweliadau safonau bwyd eraill	44
Arolygiadau bwydydd anifeiliaid	0
Ymweliadau bwydydd anifeiliaid eraill	0
Samplau anffurfiol	2
Samplau ffurfiol	390

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cynnal lefel o weithgarwch ar draws ystod y cyfrifoldebau yr oedd y gwasanaeth yn gysylltiedig â nhw. Fodd bynnag, golygai materion adnoddau na fu'r gwasanaeth, yn hanesyddol, mor weithgar ag y byddid yn ei ddisgwyl, yn enwedig o ran ei raglen arolygu safonau bwyd. Nodwyd nad oedd yr Awdurdod wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Dylai'r gwaith a wnaed yn ddiweddar i weithredu ystod lawn gofynion y Safon, ynghyd â'r cynnydd arfaethedig mewn lefelau staffio, sicrhau bod yr Awdurdod yn cynnig gwasanaeth mwy cynhwysfawr ac effeithiol.

2.2 **Maes Allweddol i'w Wella gan yr Awdurdod**

Amlder Arolygu

Nid oedd arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 Deddf Diogelwch Bwyd: Arolygiadau Safonau Bwyd. Mae arolygiadau a gynhelir yn unol â'r amlder sylfaenol yn sicrhau y caiff risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu busnesau bwyd eu nodi mewn pryd.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3. Trefnu a Rheoli

3.1 Gweithredai'r Awdurdod lywodraeth leol ar sail 'arddull Gabinet', gydag Adran Weithredol a gynhwysai Arweinydd a Dirprwy Arweinydd ynghyd â 7 aelod arall, pob un â'i bortffolio ei hun. Gan yr aelod â'r portffolio am Gymunedau Iach a Diogel oedd y cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o'r gwasanaeth gorfodi bwyd.

3.2 Roedd gan yr Awdurdod 5 Cyfarwyddiaeth, a chydgyfrifoldeb Adain Iechyd yr Amgylchedd ac Adain Safonau Masnach yr Adran Gwasanaethau Amgylcheddol, o fewn y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol, oedd darparu'r gwasanaeth diogelwch bwyd.

3.3 Roedd y fframwaith cynllunio corfforaethol yn cynnwys Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau (CPGG) ar gyfer 2002 -2003. Effeithiodd yr achos o glwy'r traed a'r genau yn ddifrifol ar yr amserlen ar gyfer adolygu gwasanaethau corfforaethol, ac fe'i gohiriwyd tan y cyflawnwyd 'dadansoddiad ar draws yr awdurdod cyfan'. Roedd gan yr Awdurdod 5 amcan Corfforaethol.

- Sicrhau ffyniant economaidd yr Ynys a chynnig cyfleoedd addysgiadol a hyfforddiant i bobl yr Ynys;
- Cynnig gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i fodloni dyheadau pobl yr Ynys;
- Hyrwyddo ac amddiffyn amgylchedd cynaliadwy a diogel;
- Hyrwyddo treftadaeth yr Ynys a'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo lles cymdeithasol cymunedau'r Ynys.

3.4 Cynhwysai'r CPGG wybodaeth am y gwasanaeth, manylion am berfformiad mewn blynyddoedd blaenorol, a nodai gamau allweddol a dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn a oedd ar ddod. Y dangosydd perfformiad a ddefnyddiwyd ar gyfer diogelwch bwyd oedd:
Canran yr arolygiadau o safleoedd bwyd y dylid fod wedi eu cynnal, ac a gynhaliwyd ar gyfer
(a) safleoedd risg uchel, (nod 100%)
(b) safleoedd eraill. (nod 90%)

3.5 Yn 2001/2002, adroddodd yr Awdurdod ei fod wedi cynnal 89.6% o'r arolygiadau uchel eu risg a 91.5% o'r arolygiadau o safleoedd eraill, tra

yn 2002/2003 adroddodd mai'r perfformiad gwirioneddol oedd 100% yn y ddau gategori.

3.6 Roedd yr Awdurdod wedi llunio Cynllun Gwasanaeth Bwyd drafft cynhwysfawr ar gyfer 2003/2004, a oedd yn unol â'r Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod Lleol. Cymeradwywyd y Cynllun Gwasanaeth yn llawn gan y fforwm Aelodau perthnasol ar 27 Mai 2003.

3.7 Adolygwyd CPGG 2002/2003 cyn yr archwiliad. Cynhaliwyd adolygiad o berfformiad Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2002/2003, a gymeradwywyd gan aelodau ar 27 Mai 2003. Cynhwysai nodi amrywiadau o gynllun y flwyddyn flaenorol, ac amlygai feysydd o'r gwasanaeth yr oedd yn ofynnol eu gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf.

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd yr Awdurdod wedi llunio nifer o weithdrefnau dogfenedig ar gyfer llawer o feysydd o ran ei weithgarwch gorfodi cyfraith fwyd. Yn ddiweddar, lluniodd weithdrefn rheoli dogfennau i gynnwys dogfennau sy'n gysylltiedig â gorfodi hylendid bwyd. Cynhwysid adolygiad blynyddol o ddogfennaeth berthnasol yn rhan o'r weithdrefn rheoli dogfennau. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn cynnwys gorfodi safonau bwyd neu fwydydd anifeiliaid.

4.2 Roedd gan staff fynediad at wyddoniaduron electronig diweddaredig ar gyfraith fwyd fasnachol a chopïau caled o'r holl ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer cynnal gweithgareddau gorfodi, gan gynnwys deddfwriaeth ac arweiniad priodol. Roedd nifer fach o gopïau caled o arweiniad cymeradwy a ddisodlwyd gan rai diweddarach yn bresennol yn adnodd llyfrgell yr adran.

Argymhellion

4.3 Dylai'r Awdurdod:

(i) Ddatblygu a gweithredu'r system reoli ymhellach i sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig o ran gorfodi cyfraith fwyd eu hadolygu yn rheolaidd, a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu arweiniad a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 4.1]

(ii) Sicrhau y caiff yr holl ddogfennaeth o ran ei weithgarwch gorfodi ei chynnwys yn y system reoli ac y caiff unrhyw newidiadau i'r ddogfennaeth eu hawdurdodi'n briodol, ac y gwaredir unrhyw ddogfennau a ddisodlwyd neu nodi'n glir eu bod wedi'u disodli.
[Y Safon – 4.2]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd yr Awdurdod wedi penodi 2 swyddog arweiniol â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol; un i orfodi hylendid bwyd a'r ail i orfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

5.2 Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu cynllun dirprwyo a awdurdodai swyddogion unigol i ddefnyddio pwerau penodol. Fodd bynnag, awdurdodwyd uwch reolwyr i gyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd heb hyfforddiant diweddaru priodol a heb gynnal y profiad perthnasol. Yn ymarferol, roedd yr holl swyddogion yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'u hyfforddiant, eu profiad a'u cymwysterau.

5.3 Nid yw'r Awdurdod yn gweithredu gwasanaeth ffurfiol y tu allan i oriau gwaith. Rhoddwyd gwybod i'r archwilwyr, petai materion difrifol o ran gorfodi bwyd yn codi y tu allan i oriau gwaith arferol, y byddid yn cysylltu â swyddog ag awdurdod addas ar y cyfle cyntaf, er bod y trefniant hwn yn dibynnu ar 'ewyllys da'.

5.4 Roedd gan yr Adran statws Buddsoddwyr Mewn Pobl, a gweithredid cynllun arfarnu ac adolygiad blynyddol o ddatblygiad staff. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu yn rhan o arfarniad pob aelod o staff a fanylai anghenion hyfforddiant swyddogion unigol. Tynnwyd y rhain ynghyd i gynhyrchu rhaglen hyfforddiant flynyddol i'r gwasanaeth.

5.5 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion.

5.6 Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal cofnod cyflawn o gymwysterau a hyfforddiant academaidd perthnasol swyddogion neu gymwysterau a hyfforddiant arall. Yn ogystal, lle'r oedd cofnodion am hyfforddiant ar gael, roedd angen eu hestyn i gynnwys manylion am gynnwys, amcanion a pharhad y cwrs, a'r modd yr asesid yr hyfforddiant.

5.7 Nid oedd dadansoddiad o'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer darparu hyfforddiant o fewn y gwasanaeth gorfodi Bwyd ar gael adeg yr archwiliad. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o nifer a pherthnasedd y cyrsiau a ddilynwyd bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i roi hyfforddiant priodol i'w staff.

Argymhellion

5.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod gan yr holl staff a awdurdodwyd i gyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd yr hyfforddiant priodol â'r profiad addas. [Y Safon - 5.3]

(ii) Cofnodi cynnwys, amcanion, parhad ac unrhyw asesiad a wnaed o gyrsiau hyfforddi a fynychwyd gan staff gorfodi bwyd. [Y Safon - 5.4]

(iii) Cofnodi cymwysterau academaidd neu gymwysterau perthnasol eraill a hyfforddiant y staff gorfodi bwyd. [Y Safon - 5.5]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod yr holl offer a chyfleusterau sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer calibro'r thermomedrau a ddefnyddid gan swyddogion. Yn ogystal, cynhyrchwyd ffurflenni i gofnodi gwiriadau calibro'r thermomedrau a gwiriadau tymheredd ar offer rheweiddio a ddefnyddid i gadw eitemau bwyd sy'n cael eu hymchwilio. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion am derfynau goddefiant derbyniol yr offer, amlder, y camau gwirio i'w cymryd pan fo'r canlyniadau y tu allan i'r terfyn goddefiant a gwiriadau rheolaidd a wnaed gan swyddogion rhwng gwiriadau calibro'r gweithgynhyrchwyr.

6.3 Roedd y feddalwedd gyfrifiadurol a weithredid gan yr Awdurdod yn gallu cynnig gwybodaeth ystadegol y gwnaed cais amdano gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gorfforaethol i sicrhau y gweithredid systemau wrth gefn priodol i leihau'r risg o lygru neu golli gwybodaeth a gedwid ar y gronfa ddata.

Argymhelliad

6.4 Dylai'r Awdurdod:

Adolygu a gweithredu'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer calibro i sicrhau y caiff yr holl offer mesur tymheredd eu calibro a'u gwirio yn gwbl unol â Chod Ymarfer Rhif 10 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Gofynion Rheoli Tymheredd y Rheoliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon - 6.2]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Yn ei Gynllun Gweithredu ar gyfer 2003/2004, adroddodd yr Awdurdod am gyfanswm y safleoedd bwyd:

Categori Risg	Nifer	%*
A	0	0
B	52	6
C	484	56
D	129	15
E	157	18
F	40	5
Heb Radd	0	0
CYFANSWM	**862**	

* Ffigurau wedi'u talgrynnu

7.2 Nododd yr Awdurdod fod 23 o safleoedd wedi'u trwyddedu o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Siopau Cigyddion) (Gwelliant) (Cymru) 2000, a chymeradwywyd 13 o safleoedd o dan ddeddfwriaeth benodol i gynnyrch (Safleoedd Cymeradwy).

7.3 Archwiliwyd hanes arolygiadau 10 safle cyffredinol a 6 Safle Cymeradwy. Mewn 4 achos, ni chynhaliwyd arolygiadau yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Arolygiadau Hylendid Bwyd. Hefyd, nododd gwiriad o'r cofnodion cyfrifiadurol bod yr Awdurdod yn hwyr yn arolygu 4 safle a oedd wedi cael eu harolygu yn y gorffennol a 25 o safleoedd newydd a oedd yn disgwyl am eu harolygiad cyntaf.

7.4 Cyflwynwyd gweithdrefn arolygu ddogfenedig gan yr Awdurdod, a oedd yn cynnwys safleoedd cyffredinol, ac a gyfeiriai ond rhyw ychydig at y safleoedd hynny a gymeradwywyd o dan reoliadau sy'n benodol i gynnyrch, er nad oedd yn cynnwys safleoedd cigyddion yr oedd yn ofynnol eu trwyddedu. Defnyddiwyd adroddiadau arolygu a ffurflenni arolygu safonedig i gofnodi canfyddiadau arolygiadau, ynghyd â manylion y busnesau dan sylw.

7.5 Cynhaliai swyddogion â chanddynt awdurdod priodol arolygiadau trylwyr ar safleoedd cyffredinol a chynnig graddau risg cywir, yn unol ag arweiniad swyddogol. Cymerwyd camau dilynol priodol ym mhob achos lle nodwyd diffyg cydymffurfio, gan gynnwys ailymweld o fewn y cyfnod priodol.

7.6 Anfonwyd adroddiadau at berchnogion ar ôl arolygu safleoedd cyffredinol. Roedd yr adroddiadau'n eglur a gwahaniaethid rhwng y gofynion cyfreithiol a'r argymhellion. Roedd y gwaith a oedd yn ofynnol ar ôl arolygiadau wedi'i nodi'n glir, yn cymryd Canllawiau Diwydiannol i ystyriaeth, ac yn gyson ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. Fodd bynnag, mewn 5 o'r adroddiadau, dyfynnwyd cyfeiriadau deddfwriaethol anghywir neu anghyflawn.

7.7 Roedd hanes cyfyngedig o orfodaeth o ran yr holl Safleoedd Cymeradwy. Yn achos 5 o'r 6 ffeil Safle Cymeradwy a archwiliwyd, nid oedd dogfen gymeradwyo yn bresennol ac, yn achos yr 1 ddogfen gymeradwyo a oedd yn bresennol, nid oedd yn rhestru'r nwyddau a gymeradwywyd.

7.8 Archwiliwyd deg copi caled ynghylch safleoedd cigyddion yr oedd arnynt angen trwydded, a dangoswyd eu bod yn cynnwys manylion cynhwysfawr am weithrediad y busnes, gan gynnwys asesiadau swyddogion. Defnyddiwyd ffurflenni cais ac arolygu safonol, a phenderfynwyd yr holl geisiadau cyn pen 28 diwrnod.

Argymhellion

7.9 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Arolygiadau Hylendid Bwyd.
[Y Safon – 7.1]

(ii) Sicrhau y cynhelir y broses gymeradwyo a'r arolygiadau ar Safleoedd Cymeradwy yn gwbl unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r arweiniad swyddogol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o gymeradwyaethau sy'n bodoli eisoes. [Y Safon – 7.2]

(iii) Adolygu'r weithdrefn arolygu ddogfenedig bresennol i gyfeirio'n fwy penodol at Safleoedd Cymeradwy ac i gynnwys arolygiadau trwyddedu cigyddion.
[Y Safon – 7.5]

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.10 Yng Nghynllun Gwasanaeth 2003/2004, adroddodd yr Awdurdod bod 975 o safleoedd a oedd yn destun arolygiadau safonau bwyd a 170 o safleoedd a oedd yn destun arolygiadau bwydydd anifeiliaid.

Arolygiadau Safonau Bwyd

Categori Risg	**Nifer**	**%***
Uchel	27	3
Canolig	356	37
Isel	592	60
CYFANSWM (Safleoedd a raddiwyd)	**975**	

* Ffigurau wedi'u talgrynnu

Arolygiadau Bwydydd Anifeiliaid

Categori Risg	**Nifer**	**%***
Uchel	5	3
Canolig	105	62
Isel	60	35
CYFANSWM	**170**	

* Ffigurau wedi'u talgrynnu

7.11 Archwiliwyd hanes arolygiadau 10 safle safonau bwyd. Yn achos 8 ohonynt, cynhaliwyd arolygiadau yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Arolygiadau Safonau Bwyd. Fodd bynnag, nodai gwiriad o'r cofnodion cyfrifiadurol fod yr Awdurdod yn hwyr gydag arolygu 431 o safleoedd.

7.12 Cyhoeddwyd adroddiadau arolygu yn achos pob un o'r 10 o ffeiliau am safleoedd a archwiliwyd. Roedd gwybodaeth am safleoedd lle nad oeddent yn gweithgynhyrchu yn gyfyngedig ac, yn gyffredinol, nid oedd digon o wybodaeth ar ffeil i asesu a oedd yr arolygiadau wedi'u cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, neu i weld a aseswyd cydymffurfiad â safonau cyfreithiol rhagnodedig. Roedd gwybodaeth ffeil am safleoedd gweithgynhyrchu yn fwy cynhwysfawr.

7.13 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid a oedd yn rhan o'u dogfennau gweithdrefnol ar gyfer gorfodi.

7.14 Archwiliwyd hanes arolygiadau 8 o safleoedd bwydydd anifeiliaid. Cofnodwyd dyddiadau'r arolygiad ar y gronfa ddata ond, fel arall, roedd y wybodaeth am y safle yn gyfyngedig, gan olygu ei fod yn anodd asesu a gynhaliwyd arolygiadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a safonau cyfreithiol rhagnodedig.

Argymhelliad

7.15 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Arolygiadau Safonau Bwyd.
[Y Safon – 7.1]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig o ran cwynion am hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys ffurflenni safonol i gofnodi'r gwyn, cyflwyno'r gwyn i'r dadansoddwr cyhoeddus neu'r archwiliwr bwyd a nifer o lythyrau safonol a ddefnyddid i ohebu â'r achwynydd, yr adwerthwr/ gweithgynhyrchwr a'r awdurdod cartref/gwreiddiol.

8.2 Archwiliwyd cofnodion 10 o gwynion am hylendid bwyd a safleoedd bwyd. Dangosai ffeiliau y cofnodwyd data am y gwyn a oedd, yn gyffredinol, yn gyflawn ac y cynhaliwyd archwiliadau priodol. Mewn 4 ffeil, nid oedd tystiolaeth i ddangos y rhoddwyd gwybod i'r holl bartïon cysylltiedig am hynt y gwyn, fel sy'n ofynnol yn ôl gweithdrefn yr Awdurdod.

8.3 Archwiliwyd cofnodion 8 o gwynion am safonau bwyd. Dangosai ffeiliau y cofnodwyd data am y gwyn a oedd, yn gyffredinol, yn gyflawn ac y cynhaliwyd archwiliadau priodol. Fodd bynnag, mewn 2 achos, roedd y cofnodion yn berthnasol i faterion eraill heblaw cwynion, gan ddangos y nodwyd y math o weithgaredd yn amhriodol ar y gronfa ddata gyfrifiadurol.

8.4 Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw gwynion am fwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

8.5 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cymerir camau priodol o ran cwynion a dderbynnir, yn unol â'r arweiniad a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun. [Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2003/2004 fod yr Awdurdod yn cefnogi Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn llawn. Dangosai'r cofnodion fod yr Awdurdod yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar faterion safonau bwyd i 10 busnes lleol, ac yn gweithredu yn anffurfiol i nifer o safleoedd mewn cysylltiad â hylendid bwyd. Nid oedd wedi diweddaru manylion am safle'r awdurdod cartref neu swyddogion cyswllt, a gedwid gan Gydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio yr Awdurdodau Lleol (LACORS).

9.2 Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu a gweithredu gweithdrefn o ran mabwysiadu cytundeb awdurdod cartref â busnes penodol. Roedd hyn yn cynnwys ffurflenni cytundeb model a manylion y ddwy blaid ar gyfer cysylltu, ynghyd â meini prawf yr oedd yn ofynnol i'r busnes gydymffurfio â nhw cyn y gellid cadarnhau'r cytundeb.

9.3 Roedd gan swyddogion fynediad at wefan LACORS i nodi Awdurdodau Cartref rhestredig. Roedd tystiolaeth mewn ffeiliau a archwiliwyd y rhoddid ystyriaeth ddyledus i wybodaeth a dderbyniwyd ar ôl cydgysylltu ag Awdurdodau Cartref yn ystod archwiliadau. Hefyd, canfuwyd tystiolaeth y cynigid cyngor i awdurdodau gorfodi a gysylltai â'r Gwasanaeth ynghylch materion Awdurdod Cartref.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Yn ogystal â'r cyngor a roddid yn ystod yr arolygiadau, roedd y Gwasanaeth yn gallu dangos ymagweddau eraill a ddefnyddid i helpu busnesau gydymffurfio â'r gyfraith. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ystod o daflenni cyngor swyddogol a gynhyrchwyd yn fewnol, i arlwywyr a thrinwyr bwyd, a gynhwysai faterion hylendid bwyd a safonau bwyd ill dau.

- Dosbarthu dogfen o'r enw "Nodiadau Arweiniol i'r Diwydiant Bwyd, Dadansoddiad Perygl Diogelwch Bwyd" i fusnesau bwyd yn arweiniad i weithredu system rheoli bwyd effeithiol.

- Yn ogystal â'r ddogfen a grybwyllir uchod a anelir at safleoedd cyffredinol, roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu arweiniad tebyg a anelwyd yn benodol at gartrefi gofal nyrsio a chartrefi preswyl, a meithrinfeydd.

- Rhaglen o ymweliadau â chigyddion lleol i'w cynorthwyo i weithredu gofynion y rheolau labelu cig eidion yn llawn.

- Seminar i ffermwyr a gweithgynhyrchwyr organig am faterion pwyso a mesur a labelu bwyd.

10.2 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr Awdurdod yn cynnig cyngor i fusnesau o ran bwydydd anifeiliaid.

10.3 *Argymhelliad*

Dylai'r Awdurdod:

Ehangu ei gyngor i fusnesau i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 10.1]

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata gyfrifiadurol o'r safleoedd bwyd a'r safleoedd bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir ac yn gyfoes. Roedd gan swyddogion fynediad at y cronfeydd data a warchodwyd gan gyfrineiriau, a chaent eu hatal rhag creu neu ddileu cofnodion.

11.3 Archwiliwyd y gronfa ddata am 12 safle bwyd a nodwyd ar hap o rifyn cyfredol cyfeiriadur busnes. Roedd pob un o'r safleoedd hyn yn bresennol ar gronfa ddata'r Awdurdod ac wedi'u cynnwys yn y rhaglen arolygu.

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Roedd y labordai a ddefnyddid gan yr Awdurdod wedi'u hachredu'n briodol.

12.2 Roedd gan yr Awdurdod bolisi samplo dogfenedig yn gynwysedig yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd a ymdriniai â bwyd a bwydydd anifeiliaid, ac a nodai ddiben samplo bwyd, y sylfaen ar gyfer cynhyrchu'r rhaglen samplo, a'r mathau o samplau i'w cymryd. Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu dogfen bolisi ynghylch samplo bwyd a dwr a ailadroddai'r materion hyn.

12.3 Amcangyfrifai'r Cynllun Gwasanaeth mai cost samplo ar gyfer safonau bwyd yn ystod 2004/2004 oedd £8,500, a £3,232 ar gyfer bwydydd anifeiliaid. Talwyd am gost dadansoddi samplau microbiolegol gan Wasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd.

12.4 Roedd y lefelau samplo amcangyfrifedig ar gyfer 2003/2004 fel a ganlyn:

- Samplo microbiolegol 392 y flwyddyn,
- Samplo Safonau Bwyd 163 y flwyddyn,
- Samplo bwydydd anifeiliaid 20 y flwyddyn.

12.5 Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu rhaglenni ar gyfer samplo safonau bwyd a samplo microbiolegol, er nad oedd y rhain yn nodi safleoedd penodol.

12.6 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau samplo a oedd yn cynnwys samplo microbiolegol, samplo safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd y rhain yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

12.7 Archwiliwyd cofnodion ffeil 10 o samplau microbiolegol anfoddhaol a 10 o samplau safonau bwyd anfoddhaol. Ymddangosai y cafwyd pob un yn unol â pholisïau, rhaglenni a gweithdrefnau samplo. Cofnodwyd pob canlyniad yn y ffeiliau priodol a rhoddwyd gwybod i'r perchnogion amdanynt. Fodd bynnag, yn achos 6 sampl microbiolegol, nid oedd tystiolaeth am unrhyw gamau dilynol o ran y safleoedd hyn.

Argymhelliad

12.8 Dylai'r Awdurdod:

Gymryd camau priodol yn unol â'r polisi gorfodi pan ystyrir nad yw canlyniadau samplau yn foddhaol.
[Y Safon – 12.6]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig o ran rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd, a luniwyd ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd, Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys Awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r Archwilwyr na chafwyd unrhyw achosion diweddar o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd yn ardal yr Awdurdod. Nid oedd y cynllun wedi cael ei adolygu na'i brofi.

13.2 Paratowyd gweithdrefn, a roddai manylion am ymchwiliadau i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd, gan yr Awdurdod, a oedd yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o nodiadau cyngor, holiaduron a llythyrau safonol.

13.3 Archwiliwyd cofnodion ffeil 6 rhybudd unigol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Nid oedd cofnodion 2 achos yn ddigon manwl i bennu a gynhaliwyd archwiliad priodol ac, yng ngweddill yr achosion, roedd y cofnodion ffeil yn anghyflawn gyda ffurflenni archwilio anghyflawn, diffyg tystiolaeth yr anfonwyd llythyrau safonol ac, mewn un achos, dryswch o ran beth oedd yr organeb achosol.

Argymhellion

13.4 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd ei hadolygu ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd ac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill, ac y caiff ei phrofi fel a nodwyd.
[Y Safon – 13.1]

(ii) Cynnal ymchwiliadau i achosion achlysurol yn gwbl unol â'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer archwilio rhybuddion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd.
[Y Safon – 13.2]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu gweithdrefnau dogfenedig i ymdrin â Rhybuddion Perygl Bwyd (RhPB) a dderbyniwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd, a gynhwysai drefniadau cysylltu anffurfiol y tu allan i oriau gwaith.

14.2 Roedd system gyfrifiadurol yr Awdurdod yn gallu derbyn rhybuddion perygl bwyd ac roedd copïau o'r holl RhPBau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael. Roedd ymatebion yr Awdurdod i RhPBau yn briodol ac yn cael eu cofnodi.

14.3 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na chafwyd unrhyw achosion lleoledig difrifol na phroblemau diogelwch bwyd ehangach yn ystod y ddwy flynedd diwethaf y byddai wedi bod yn ofynnol rhoi gwybod amdanynt i Asiantaeth Safonau Bwyd, yn unol â Chod Ymarfer Rhif 16 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990 o ran y System Rhybuddio ynghylch Perygl Bwyd.

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu Concordat Gorfodi awdurdod lleol.

15.2 Roedd yr Awdurdod wedi datblygu polisi gorfodi i'r adran Gwasanaethau Amgylcheddol a gymeradwywyd yn ffurfiol gan yr aelodau ym mis Ebrill 2003. Roedd copi caled o'r ddogfen ar gael, ac roedd ar gael ar wefan yr Awdurdod hefyd.

15.3 Yr unig weithgareddau gorfodi a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad oedd 3 achos o ildio bwyd yn wirfoddol ac 1 rhybudd ffurfiol. Roedd yr achosion o ildio bwyd yn wirfoddol yn rhan o orfodi hylendid bwyd, ac roedd y rhybudd ffurfiol yn rhan o orfodi safonau bwyd.

15.4 Archwiliwyd y 3 ffeil ynghylch yr ildio gwirfoddol a chanfuwyd y gwnaed pob un yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

15.5 Proseswyd y rhybudd ffurfiol yn gwbl unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad swyddogol.

15.6 Roedd gan yr Awdurdod nifer o welyau cregynbysgod yn ei ardal, yr oedd angen dogfennau symud ar eu cyfer fel arfer i alluogi cynaeafu masnachol. Nodai ddiffyg unrhyw ddogfennau o'r fath yn ystod y 12 mis blaenorol, er gwaethaf defnydd parhaus ar y gwelyau, nad oedd yr Awdurdod yn gorfodi'r ddeddfwriaeth berthnasol yn llawn.

Argymhelliad

15.7 Dylai'r Awdurdod:

> Sicrhau ei fod yn cyflawni'r holl weithgareddau gorfodi sy'n gysylltiedig â'r gwelyau cregynbysgod yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arweiniad a gyhoeddir yn ganolog.
> [Y Safon – 15.2]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

H*ylendid Bwyd*

16.1 Roedd cofnodion papur a chofnodion cronfa ddata o safleoedd bwyd yn adferadwy ac wedi'u cadw am y 6 blynedd sy'n ofynnol yn ôl y Safon.

16.2 Archwiliwyd cofnodion ar gyfer 10 safle cyffredinol lle cynhaliwyd arolygiadau hylendid bwyd. Cynhwysai'r cofnodion fanylion am faint a graddfa'r busnes, y math o weithgarwch bwyd, gwybodaeth am hyfforddiant ar hylendid ac asesiad o gydymffurfiad y busnes â dadansoddiad o berygl. Fodd bynnag, mewn 5 o achosion, roedd y rheoliadau a ddyfynnwyd naill ai'n anghywir neu'n anghyflawn.

16.3 Hefyd, archwiliwyd cofnodion 5 Safle Cymeradwy. Cofnodwyd crynodeb o safleoedd a gweithgareddau ar 4 ffeil. Fodd bynnag, roedd manylion fel y labordai a ddefnyddid gan y cwmni, cynlluniau tynnu cynnyrch yn ei ôl, trefniadau difa pla, hyfforddiant ar hylendid, asesu hunanwiriadau HACCP a manylion y rhaglen lanhau a chemegau a ddefnyddid yn eisiau, yn gyson.

16.4 Archwiliwyd deg ffeil a oedd yn ymwneud â thrwyddedu safleoedd siopau cigyddion. Roedd y cofnodion ffeil yn gynhwysfawr eu natur, gyda disgrifiad o weithrediadau'r safleoedd, a manylion am gydymffurfio â gofynion hyfforddiant a HACCP.

16.5 Dosbarthwyd naill ai adroddiad am yr arolygiad neu lythyr dilynol ar ôl pob arolygiad hylendid bwyd, a nodai'r rheswm am unrhyw waith a chamau gofynnol yn eglur, ac a nodai'r amserlenni priodol ar gyfer gweithredu a gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol a chyngor.

16.6 Yn gyffredinol, nid oedd y cofnodion ffeil am gwynion a chlefydau heintus yn ddigon cynhwysfawr i weithredu'n gofnod er gwybodaeth i swyddogion gorfodi eraill.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

16.7 Roedd cofnodion papur a chofnodion cronfa ddata ar gyfer safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn adferadwy ac, yn gyffredinol, fe'u cedwid am y 6 blynedd sy'n ofynnol yn ôl y Safon.

16.8 Gadewid ffurflenni ôl-Arolygiad yn y safle ar ôl arolygiad safonau bwyd, ac roedd cofnodion a archwiliwyd am arolygiadau diweddar, yn

gyffredinol, yn gynhwysfawr eu natur.

16.9 Roedd cofnodion ffeil o ran safleoedd bwydydd anifeiliaid yn gyfyngedig, heb fawr o wybodaeth am weithgareddau a wnaed ar y safleoedd. Hefyd, mewn sawl achos, nid oedd y cofnodion copi caled yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifiadurol.

Argymhelliad

16.10 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod manylion cofnodion a gedwir am Safleoedd Cymeradwy, cwynion, ymchwiliadau clefydau heintus ac arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ddigonol i sicrhau y gellir canfod y camau a gymerwyd, ynghyd â hanes cydymffurfio ac archwilio.
[Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gwyno gorfforaethol a oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Safon.

17.2 Roedd gwybodaeth am y weithdrefn ar gael yn y mannau derbyn, ac roedd taflen wybodaeth a amlinellai'r weithdrefn ar gael i'r cyhoedd.

17.3 Dywedwyd wrth yr archwilwyr na chofnodwyd unrhyw gwynion yn erbyn y gwasanaeth yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu ag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad gweithredol yn y canlynol:

- Grwp Bwyd Gogledd Cymru.
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru.
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru
- Panel Mesureg a Safonau Ansawdd Gogledd Cymru .

Cedwid cofnodion y cyfarfodydd hyn, ac roeddent yn cadarnhau presenoldeb rheolaidd gan un o gynrychiolwyr y Gwasanaeth.

19 Monitro Mewnol

19.1 Yn ddiweddar, cynhyrchodd yr Awdurdod weithdrefn monitro mewnol ddogfenedig a gynhwysai'r gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd a oedd, yn ei dro, yn cynnwys agweddau ansoddol a meintiol. Cyfeiriai'r Polisi a Gweithdrefnau Gorfodi Safonau Bwyd ac Amaethyddol at fonitro mewnol o ran gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Dylai gweithredu'r gweithdrefnau'n llawn sicrhau y caiff materion a godwyd yn ystod yr archwiliad, o ran cofnodion yn benodol, eu dileu.

19.2 Roedd tystiolaeth o fonitro ansoddol a meintiol anffurfiol, gan gynnwys y canlynol:

- Monitro perfformiad drwy adroddiadau mewnol ac adroddiadau pwyllgor
- Cyfarfodydd tîm i drafod materion dehongli
- Adolygu gohebiaeth

19.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi defnyddio holiaduron a anfonwyd at ddefnyddwyr gwasanaeth yn gofyn am eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a gynigid. Darparwyd tystiolaeth am 2 arolwg, y cyntaf ynghylch hylendid bwyd a'r ail ynghylch yr adran Safonau Masnach, a gynhwysai gorfodi safonau bwyd. Nodai'r arolygon, yn gyffredinol y ceid lefel uchel o foddhad ymysg y gymuned fusnes am y gwasanaeth gorfodi bwyd a gynigid gan yr Awdurdod.

19.4 *Argymhelliad*

Dylai'r Awdurdod:

Weithredu ei weithdrefnau monitro mewnol yn llawn i sicrhau gorfodaeth effeithiol a chyson, ac i gadarnhau ei bod yn cydymffurfio â holl feysydd y Safon, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun.
[Y Safon 19.1]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Roedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan yng nghynllun archwilio rhyng-Awdurdod Cymru Gyfan Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru yn 2000. Cynhyrchodd yr Awdurdod gynllun gweithredu i ymdrin â'r materion a godwyd yn ystod yr archwiliad.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Roedd tystiolaeth o waith hyrwyddo diogelwch bwyd a wnaed gan yr Awdurdod yn cynnwys:

- Cyfranogi yn Wythnos Diogelwch Bwyd Genedlaethol Foodlink, gydag arddangosiadau mewn 4 archfarchnad leol yn ystod 2002.
- Cyfranogi yng Nghynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru
- Cyfres o gyflwyniadau ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch bwyd yn y coleg lleol.

Argymhelliad

21.2 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau ei fod yn ehangu ei weithgareddau hyrwyddo i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]

Archwilwyr: **Nick Wellington**
Jane Davies
Rob Wilkins
Keith Blake

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Concordat Gorfodi	Arweiniad gan y Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth dda y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â busnesau, llywodraeth leol a chanolog, grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill

	sydd â diddordeb. Mae'n nodi'r hyn y gall busnesau ac eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan swyddogion gorfodi.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a

	nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.

Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

Cynllun Gweithredu ar gyfer: Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad Archwilio: 3 – 5 Mehefin 2003

GWELLIANNAU A GYNLLUNNIR	ERBYN (DYDDIAD)	I FYND I'R AFAEL Â (ARGYMHELLIAD, GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL)	SYLWADAU
Cynllun Gwasanaeth Bwyd i'w gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Aelodau	Wedi'i gwblhau	3.8 Dylai'r Awdurdod: (i) Gyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth i'w gymeradwyo gan yr Aelodau [Y Safon – 3.1]	Cymeradwywyd y Cynllun Gwasanaeth Bwyd gan yr Aelodau Gweithredol ar 27 Mai 2003
Adolygiad o Berfformiad Blynyddol i'w gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Aelodau	Wedi'i gwblhau	(ii) Cynnal a dogfennu adolygiad perfformiad blynyddol ar sail Cynllun Gwasanaeth pob blwyddyn, adrodd am yr adolygiad i'r fforwm aelodau priodol ac ymdrin ag unrhyw ddiffygion yn y trefniadau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol. [Y Safon – 3.2]	Yr adolygiad nesaf o berfformiad i'w gynnal erbyn 30 Ebrill 2006
Gweithredu'r Weithdrefn Rheoli ac Adolygu Dogfennau Safonau Masnach	Wedi'i gwblhau	4.3 Dylai'r Awdurdod: (i) Ddatblygu a gweithredu'r system reoli ymhellach i sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig o ran gorfodi cyfraith fwyd eu hadolygu yn rheolaidd, a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu arweiniad a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1]	System Rheoli Dogfennau Safonau Masnach yn weithredol ers 1 Ebrill 2004 ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
Caiff Systemau Rheoli	31/12/05	(ii) Sicrhau y caiff yr holl ddogfennaeth o ran	

Dogfennau eu hadolygu i sicrhau y caiff dogfennau a ddisodlwyd gan rai diweddarach eu gwaredu neu nodi'n glir eu bod wedi'u disodli.		ei weithgarwch gorfodi ei chynnwys yn y system reoli ac y caiff unrhyw newidiadau i'r ddogfennaeth eu hawdurdodi'n briodol, ac y gwaredir unrhyw ddogfennau a ddisodlwyd neu nodi'n glir eu bod wedi'u disodli gan ddogfennaeth ddiweddaredig [Y Safon – 4.2]	
		5.8 Dylai'r Awdurdod:	
Adolygu anghenion hyfforddiant yr holl staff a awdurdodir i gynnal dyletswyddau awdurdodi bwyd	31/01/06	(i) Sicrhau bod gan yr holl staff a awdurdodwyd i gyflawni dyletswyddau gorfodi bwyd yr hyfforddiant priodol a'r profiad addas. [Y Safon – 5.3]	Mae Cynlluniau Hyfforddi, a gyflwynir i'r Adran Adnoddau Dynol yn flynyddol, yn nodi anghenion hyfforddi'r holl staff, gan gynnwys staff a awdurdodwyd i orfodi cyfraith fwyd.
Adolygu a diweddaru cofnodion cyrsiau hyfforddiant a gedwir ar system Rheoli Personél gyfrifiadurol AD gorfforaethol.	31/03/06	(ii) Cofnodi cynnwys, amcanion, parhad ac unrhyw asesiad a wnaed o gyrsiau hyfforddi a fynychwyd gan staff gorfodi bwyd. [Y Safon – 5.4]	Cedwir cofnodion hyfforddiant ar system gyfrifiadurol Rheolwr Personél gan yr Adran Adnoddau Dynol gorfforaethol. Ar hyn o bryd, rhoddir mynediad at system fyw i adrannau i ddibenion bwydo data i mewn ac adrodd.
Adolygu a diweddaru cofnodion cymwysterau a hyfforddiant staff a gedwir ar system Rheoli Personél gyfrifiadurol AD gorfforaethol.	31/03/06	(iii) Cofnodi cymwysterau academaidd neu gymwysterau perthnasol eraill a hyfforddiant y staff gorfodi bwyd. [Y Safon – 5.5]	
		6.4 Dylai'r Awdurdod:	
Adolygu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig	30/09/05	Adolygu a gweithredu'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer calibro i sicrhau y caiff	Y weithdrefn adolygedig i gynnwys manylion am derfynau goddefiant

ar gyfer calibro, yn unol â'r Cod Ymarfer.		yr holl offer mesur tymheredd eu calibro a'u gwirio yn gwbl unol â Chod Ymarfer Rhif 10 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Gorfodi Gofynion Rheoli Tymheredd y Rheoliadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 6.2}	derbyniol i'r offer, amlder gwiriadau, camau i'w cymryd lle bydd canlyniadau y tu allan i derfynau goddefiant, a gwiriadau arferol a wneir gan swyddogion rhwng gwiriadau calibro'r gweithgynhyrchwr.
		7.9 Dylai'r Awdurdod:	
Adolygu rhaglen arolygiadau Hylendid Bwyd er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r amlder sylfaenol yn y Cod Ymarfer.	Wedi'i gwblhau	(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Arolygiadau Hylendid Bwyd. [Y Safon – 7.1]	Cyflawnodd y rhaglen arolygu 100% o'r arolygiadau Categori ABC a oedd i'w cynnal yn 2004/05. Cynllunio ymweliadau ychwanegol i safleoedd cymeradwy, fel a gyfarwyddwyd gan y Cod Ymarfer.
Adolygu gweithdrefnau ynghylch Safleoedd Cymeradwy.	31/03/06	(ii) Sicrhau y cynhelir y broses gymeradwyo a'r arolygiadau ar Safleoedd Cymeradwy yn gwbl unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r arweiniad swyddogol. Dylai hyn gynnwys adolygiad o gymeradwyaethau sy'n bodoli eisoes. [Y Safon – 7.2]	Cod Ymarfer newydd wedi'i gyhoeddi ers yr Archwiliad.
Adolygu'r Weithdrefn Arolygu Hylendid Bwyd a gweithredu'r gwelliannau gofynnol.	31/03/06	(iii) Adolygu'r weithdrefn arolygu ddogfenedig bresennol i gyfeirio'n fwy penodol at Safleoedd Cymeradwy ac i gynnwys arolygiadau trwyddedu cigyddion. [Y Safon – 7.5]	Gall y bydd atal trwyddedu cigyddion tua mis Ionawr 2006. Rhaid adolygu'r ddogfennaeth i amlygu deddfwriaeth newydd sydd i fod i ddod ym mis Ionawr.
Cais refeniw am adnoddau		7.15 Dylai'r Awdurdod:	Cyflwynwyd ceisiadau refeniw am

staffio ychwanegol i'w gyflwyno fel rhan o gylch gosod cyllideb refeniw 2006-07.	01/12/05	Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd: Arolygiadau Safonau Bwyd. [Y Safon – 7.1]	adnoddau staffio Safonau Masnach ychwanegol i wella lefelau arolygu safonau bwyd yn ystod cylchoedd gosod cyllideb refeniw flynyddol 2004-05 a 2005-06, ond buont yn aflwyddiannus.
Diwygio Gweithdrefn Cwyno am Fwyd Iechyd yr Amgylchedd a gweithredu gwelliannau.	Wedi'i gwblhau	8.5 Dylai'r Awdurdod: Sicrhau y cymerir camau priodol o ran cwynion a dderbynnir, yn unol â'r arweiniad a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun. [Y Safon – 8.2]	Anfonwyd llythyr at achwynydd ar ôl cwblhau ymchwiliad, i roi gwybod am gamau a gymerwyd a chanlyniad yr ymchwiliad. Diwygiwyd y ffurflen Cwyno am Fwyd i gynnwys dyddiad cwblhau a manylion y cysylltu â'r achwynydd.
Estyn Cyngor i Fusnesau i gynnwys bwydydd anifeiliaid.	Wedi'i gwblhau	10.3 Dylai'r Awdurdod: Ehangu ei gyngor i fusnesau i gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 10.1]	Cwblhawyd pecynnau Cyngor i Fusnesau ar 1 Ebrill 2004 ac erbyn hyn maent yn cynnwys cyngor i werthwyr bwydydd anifeiliaid.
Diwygio Polisi a Gweithdrefn Samplo dogfenedig Iechyd yr Amgylchedd.	Wedi'i gwblhau	12.8 Dylai'r Awdurdod: Gymryd camau priodol yn unol â'r polisi gorfodi pan ystyrir nad yw canlyniadau samplau yn foddhaol. [Y Safon – 12.6]	Mae Polisi a Gweithdrefn Samplo diwygiedig yn egluro pa gamau dilynol y dylid eu cymryd, gan gynnwys ailsamplo ac ymweliadau ymchwilio â safleoedd a samplwyd.
Adolygu'r weithdrefn	31/12/05	13.4 Dylai'r Awdurdod : (i) Sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer rheoli	Mae'r Awdurdod Iechyd newydd

ddogfenedig, ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd lleol. Gweithredu'r weithdrefn ddogfenedig yn llawn.	 Wedi'i gwblhau	achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd ei hadolygu ar y cyd â'r Awdurdod Iechyd ac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill, ac y caiff ei phrofi fel a nodwyd. [Y Safon – 13.1] (ii) Cynnal ymchwiliadau i achosion achlysurol yn gwbl unol â'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer archwilio rhybuddion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. [Y Safon – 13.2]	gyhoeddi canllawiau newydd ynghylch gweithdrefn ar gyfer heintiadau gastro-berfeddol. Erbyn hyn, mae cofnodion achos yn cynnig manylion llawn yr holl gamau a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad, yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig.
Adolygu Gweithgareddau Gorfodi o ran gwelyau cregynbysgod.	31/03/06	15.7 Dylai'r Awdurdod: (ii) Sicrhau ei fod yn cyflawni'r holl weithgareddau gorfodi sy'n gysylltiedig â'r gwelyau cregynbysgod yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arweiniad a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2]	Materion parhaus o ran y ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch gwelyau cregynbysgod a lefel yr adnoddau staff sy'n ofynnol i'w gorfodi'n ddigonol.
Adolygu manylion Cofnodion a gedwir am Safleoedd Cymeradwy, cwynion, ymchwiliadau i glefydau heintus ac arolygiadau bwydydd anifeiliaid.	Wedi'i gwblhau	16.10 Dylai'r Awdurdod: Sicrhau bod manylion cofnodion a gedwir am Safleoedd Cymeradwy, cwynion, ymchwiliadau i glefydau heintus ac arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ddigonol i sicrhau y gellir canfod y camau a gymerwyd, ynghyd â hanes cydymffurfio ac archwilio. [Y Safon – 16.1]	
		19.4 Dylai'r Awdurdod:	

Gweithredu Gweithdrefnau Monitro Mewnol yn llawn.	Wedi'i gwblhau	Weithredu ei weithdrefnau monitro mewnol yn llawn i sicrhau gorfodaeth effeithiol a chyson, ac i gadarnhau ei bod yn cydymffurfio â holl feysydd y Safon, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun [Y Safon – 19.1]	
Ehangu gweithgareddau hyrwyddo Diogelwch Bwyd i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid	Wedi'i gwblhau	21.2 Dylai'r Awdurdod: Sicrhau ei fod yn ehangu ei weithgareddau hyrwyddo i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]	Ehangwyd gweithgareddau hyrwyddo ar 1 Ebrill 2004 i gynnwys safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.